**Rhif: WG47788**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad ar Hawliau Pensiwn Diffoddwyr Tân Wrth Gefn 2023

Dyddiad cyhoeddi: 14 Gorffennaf 2023

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 06 Hydref 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx

## Trosolwg

Rydym yn ymgynghori ar ddiwygiadau i gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru i ymestyn mynediad i ddiffoddwyr tân y system ddyletswydd yn ôl y galw (RDS) a oedd yn gwasanaethu yn y RDS cyn y flwyddyn 2000.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn nodi cynigion i ddiwygio Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 i sicrhau bod y cynllun yn ymdrin yn deg â dyletswyddau diffoddwyr tân sy'n dod o dan gontractau eilaidd, a bod iawndal yn cael ei gyfrifo ar sail gwasanaeth llawn diffoddwr tân, nid dim ond gwasanaeth sy'n dod o dan gontract eilaidd.

## Sut mae ymateb

I ymateb i'r ymgynghoriad hwn, llenwch y ffurflen ar-lein sydd ar gael yma: https://www.llyw.cymru/hawliau-pensiwn-diffoddwyr-tan-y-system-ar-ddyletswydd-yn-ol-galw-yn-2023

Fel arall, gall ymatebwyr ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar wahân a ddarperir, y gellir ei hanfon dros e-bost at fire@gov.wales neu ei hanfon drwy'r post i'r cyfeiriad isod.

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 06 Hydref 2023.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Gwasanaethau Tân
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg: https://www.gov.wales/pension-entitlements-retained-firefighters-2023

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru a thros unrhyw ddata personol rydych yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn, ac a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â sut byddant yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Erthyl 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau pellach. Mewn ymgyngoriadau ar y cyd, gall hyn hefyd gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, efallai y bydd trydydd parti achrededig yn cael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghorol). Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael ei gyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gallai Llywodraeth Cymru fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu rhywfaint o wybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn a gyhoeddir eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch fel arall yn cael eu cadw am dair blynedd fan bellaf.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn amgylchiadau penodol)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn amgylchiadau penodol)
- i gludo data (mewn amgylchiadau penodol)
- i roi cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan reoliad GDPR y DU, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: dataprotectionofficer@gov.wales

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys

Cynnwys ..... 4
Rhan 1 - Ymestyn Mynediad at Bensiynau Diffoddwyr Tân i Ddiffoddwyr Tân y System ar Ddyletswydd yn ôl y Galw (RDS) ..... 5
Cyflwyniad ..... 5
Achos O'Brien ..... 6
Cynigion i Gywiro'r Sefyllfa ..... 7
Manylion y Cyfnod Cymhwysedd ac Unioni ..... 7
Rhwymedi Arfaethedig ..... 11
Math o aelod ..... 12
Buddion Pensiwn sydd ar gael ..... 12
Cyfraniadau ..... 16
Yr Ymarfer Opsiynau ..... 20
Polisïau Eraill ..... 22
Rhan 2 - Diwygiadau arfaethedig i Orchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) mewn perthynas â Chontractau Eilaidd ..... 25
Contractau Eilaidd – Chwilio ac Achub Trefol (USAR) ..... 25
Contractau Eilaidd – Dyletswydd Wrth Gefn ..... 26
Geirfa ..... 29

# Dogfen Ymgynghori Ddrafft

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â 2 fater:

   Mae **rhan 1** yn nodi cynigion i ddarparu mynediad at bensiynau diffoddwyr tân i ddiffoddwyr tân y system ar ddyletswydd yn ôl y galw (RDS) a oedd yn gwasanaethu rhwng 7 Ebrill 2000 a 5 Ebrill 2006 (i gynnwys mynediad sy'n ymwneud â gwasanaeth i'r RDS cyn y flwyddyn 2000).

   Mae **rhan 2** yn nodi cynigion i ddiwygio cynllun digolledu'r diffoddwyr tân 2007 i sicrhau bod y cynllun yn ymdrin yn deg â dyletswyddau diffoddwyr tân sy'n dod o dan gontractau eilaidd penodol, a bod iawndal yn cael ei gyfrifo ar sail gwasanaeth llawn diffoddwr tân, nid dim ond gwasanaeth sy'n dod o dan gontract eilaidd.

# Rhan 1 - Ymestyn Mynediad at Bensiynau Diffoddwyr Tân i Ddiffoddwyr Tân y System ar Ddyletswydd yn ôl y Galw (RDS)

## Cyflwyniad

2. Nid yw dros hanner yr holl ddiffoddwyr tân yng Nghymru yn cael eu cyflogi'n llawn amser yn y swydd honno. Yn hytrach, maent yn gweithio drwy'r system ar ddyletswydd yn ôl y galw, neu'r "RDS", lle mae gofyn iddynt ymateb i ddigwyddiadau yn ôl yr angen o'u cartref neu o'u man cyflogaeth sylfaenol. Dim ond am yr amser a dreulir yn mynd i ddigwyddiadau ac yn cyflawni dyletswyddau eraill, fel hyfforddiant, y mae'r rhan fwyaf o ddiffoddwyr tân y RDS yn cael eu talu, yn ogystal â ffi cadw flynyddol gymedrol, er bod y rheini sy'n cael eu cyflogi gan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn ennill cyflog penodol.

3. Am flynyddoedd lawer, nid oedd gan ddiffoddwyr tân y RDS fynediad at gynllun pensiwn galwedigaethol. Ni wnaeth hyn newid ar ôl cyflwyno Rheoliadau Gweithwyr Rhan Amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000[1] ('Rheoliadau 2000'), sy'n gwahardd trin gweithwyr rhan amser yn llai ffafriol na gweithwyr amser llawn sy'n gwneud "yr un gwaith neu waith eithaf tebyg". Roedd cyflogwyr o'r farn nad oedd gwaith diffoddwyr tân y RDS yn ddigon tebyg i waith diffoddwyr tân amser llawn, ac felly nad oedd ganddynt hawl i'r un mynediad at bensiynau galwedigaethol.

4. Cafodd y farn honno ei gwrthdroi gan achos 2006 <u>Matthews v Awdurdod Tân Trefi Medway a Kent</u>, lle penderfynodd y Tribiwnlys Cyflogaeth fod gwaith y RDS a diffoddwyr tân amser llawn yn ddigon tebyg i fodloni'r prawf cymaroldeb yn

[1] 2000 Rhif 1551

Rheoliadau 2000 [2]. Roedd yn nodi bod gwrthod mynediad i ddiffoddwyr tân y RDS at gynllun pensiwn galwedigaethol tebyg i ddiffoddwyr tân amser llawn yn gyfystyr â thriniaeth anghyfreithlon lai ffafriol.

5. O ganlyniad, creodd y Gorchymyn Diwygio Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2014[3] "cynllun wedi'i addasu" ar gyfer diffoddwyr tân y RDS yn y Cynllun 2007 a oedd yn gyfredol ar y pryd. Roedd gan ddiffoddwyr tân y RDS hawl i ymuno â'r cynllun hwnnw'n ôl-weithredol drwy dalu'r cyfraniadau pensiwn a fyddai wedi bod yn ddyledus pe na bai'r driniaeth anghyfreithlon a nodwyd yn achos Matthews wedi digwydd. Roedd y cynllun wedi'i addasu yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub gynnal "ymarfer opsiynau" lle gallai pob diffoddwr tân y RDS yr effeithir arno ddewis faint (os o gwbl) o'i wasanaeth blaenorol yr oedd yn dymuno ei brynu'n ôl yn y modd hwn, o 1 Gorffennaf 2000 ymlaen. Dewiswyd y dyddiad hwn i adlewyrchu pryd daeth Rheoliadau 2000 i rym, er y derbynnir bellach y dylent fod wedi dewis 7 Ebrill 2000.

6. Er ei fod wedi'i gynnwys yng Nghynllun 2007, mae'r cynllun wedi'i addasu yn debyg i Gynllun 1992 yn y rhan fwyaf o agweddau. Bwriad hyn oedd sicrhau triniaeth gyfartal i ddiffoddwyr tân amser llawn o 2000 ymlaen. Roedd wedi'i gynnwys yng Nghynllun 2007 oherwydd bod Cynllun 1992 wedi cau i aelodau newydd ar 5 Ebrill 2006. Ar ôl hynny, roedd diffoddwyr tân wrth gefn (boed eisoes wedi'u cyflogi neu wedi'u recriwtio) yn gymwys i ymuno â Chynllun 2007, yn union fel diffoddwyr tân amser llawn.

## Achos <u>O'Brien</u>

7. Defnyddiwyd dyddiad terfyn tebyg i'r un yn y flwyddyn 2000 ar gyfer gwasanaeth blaenorol pensiynadwy gweithwyr rhan amser eraill, a'u hawliau i'w brynu'n ôl. Yn ei dro, heriwyd hyn yn achos <u>O'Brien yn erbyn y Weinyddiaeth Gyfiawnder</u>[4], lle'r oedd barnwr rhan amser a oedd yn gwasanaethu ar 7 Ebrill 2000 yn dadlau y dylai ei holl wasanaeth fod yn bensiynadwy, nid dim ond gwasanaeth ar ôl y dyddiad hwnnw. Cafodd yr achos ei benderfynu o'i blaid gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn 2018 (ar sail geirda gan y Goruchaf Lys).

8. Mae'n dilyn bod y dyddiad terfyn o 1 Gorffennaf 2000 yn y cynllun wedi'i addasu hefyd yn anghyfreithlon. Mae'n bosibl bod gwasanaeth parhaus gan ddiffoddwr tân y RDS a gyflogir ar neu ar ôl 7 Ebrill 2000 yn bensiynadwy, ac mae gan ddiffoddwyr tân o'r fath, a dylent fod wedi cael, yr hawl i brynu'r gwasanaeth hwnnw yn ôl-weithredol drwy dalu'r cyfraniadau priodol.

---

[2] Daeth y Tribiwnlys Cyflogaeth i benderfyniad ar ôl i'r achos gael ei gyfeirio'n ôl ato gan Dŷ'r Arglwyddi, gweler [2006] UKHL 8

[3] 2014 Rhif 3254 (W.330). Mae Cynllun 2007, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2014, wedi'i gynnwys yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (2007 Rhif 1072 (Cy.110))

[4] CJEU Achos C-432/17. Cyfeiriad y Goruchaf Lys at y CJEU yw [2017] UKSC 46.

## Cynigion i Gywiro'r Sefyllfa

9. Roedd "cynllun wedi'i addasu" 2014 yn gwneud darpariaeth i ddiffoddwyr tân y RDS brynu pensiwn o 1 Gorffennaf 2000 ymlaen yn ôl-weithredol ac roedd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub gynnal ymarfer opsiynau gyda diffoddwyr tân cymwys at y diben hwn. Rydym yn cynnig ymestyn y darpariaethau hynny i gynnwys gwasanaeth y RDS cyn 1 Gorffennaf 2000 ac rydym yn mynnu bod yr Awdurdodau Tân ac Achub yn cynnal ymarfer pellach sy'n rhoi'r opsiynau perthnasol i unigolion cymwys ac yn rhoi'r trefniadau gweinyddol angenrheidiol ar waith i brosesu cyfraniadau pensiwn a budd-daliadau.

10. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno rhwng Undeb y Brigadau Tân, y Gymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub, y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r Swyddfa Gartref ar 9 Mawrth 2022. Er nad oedd Llywodraeth Cymru yn rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, rydym yn credu bod ei darpariaethau'n deg, ac rydym wedi'u defnyddio fel sail ar gyfer ein cynigion ar gyfer pensiynau diffoddwyr tân y RDS yng Nghymru.

11. Mae ein cynigion wedi'u nodi'n fanylach isod.

## A. Manylion y Cyfnod Cymhwysedd ac Unioni

12. Mae dau gategori o ddiffoddwyr tân wrth gefn a fyddai'n gymwys ar gyfer y rhwymedi a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn. Os bu farw diffoddwr tân yn y naill gategori neu'r llall, byddai unrhyw berson a fyddai â hawl i gael pensiwn goroeswr (priod, partner neu blentyn dibynnol yr ymadawedig fel arfer) yr un mor gymwys ar gyfer y rhwymedi rydym yn ei gynnig (gweler paragraffau 27-34 am ragor o fanylion).

**Categori 1** – Unigolion y mae eu gwasanaeth fel diffoddwyr tân y RDS yn cynnwys y dyddiad gweithredol, sef 7 Ebrill 2000. Rydym yn cynnig y byddai ganddynt hawl i brynu eu holl wasanaeth parhaus i'r RDS, ac eithrio unrhyw wasanaeth sydd eisoes wedi'i brynu fel rhan o'r ymarfer opsiynau cyntaf.

> ***Enghraifft 1:*** *Ymunodd Diffoddwr Tân A â'r gwasanaeth fel diffoddwr tân wrth gefn ar 1 Mai 1985, a gadawodd yn 2002. Fel rhan o'r ymarfer opsiynau cyntaf, dewisodd beidio â phrynu unrhyw wasanaeth yn y gorffennol gan mai dim ond 2 flynedd o wasanaeth pensiynadwy oedd ganddo dan yr ymarfer hwnnw (rhwng 2000 a 2002) a oedd yn arwain at bensiwn bach iawn yn unig. Bydd ganddo hawl yn awr i brynu rhywfaint neu'r cyfan o'i wasanaeth rhwng 1985 a 2002.*
>
> ***Enghraifft 2:*** *Ymunodd Diffoddwr Tân B â'r gwasanaeth ar 1 Ionawr 1995 fel diffoddwr tan wrth gefn ac mae'n dal i gael ei chyflogi yn y swydd honno. Fel rhan o'r ymarfer opsiynau cyntaf, dewisodd brynu ei holl wasanaeth o 1 Gorffennaf 2000 ymlaen. Bydd ganddi hawl yn awr i brynu rhywfaint neu'r cyfan o'i gwasanaeth rhwng 1 Ionawr 1995 a 30 Mehefin 2000.*

**Categori 2** - Diffoddwyr tân y RDS nad yw eu gwasanaeth yn cynnwys dyddiad gweithredol 7 Ebrill 2000, ond nad ydynt eto wedi cael y cyfle llawn i brynu gwasanaeth yn y gorffennol y mae ganddynt hawl iddo. Mae hyn yn cynnwys unigolion a ddylai fod wedi cael yr hawl i gymryd rhan yn yr ymarfer opsiynau cyntaf ond na chawsant y cyfle hwnnw. Mae hefyd yn cynnwys y rhai a gafodd eu cyflogi'n ddiffoddwyr tân y RDS rhwng 7 Ebrill 2000 a'r dyddiad terfyn blaenorol sef 30 Mehefin 2000. Fel y nodwyd uchod, roedd y dyddiad hwnnw'n anghywir; hyd yn oed pe bai unigolion wedi cymryd rhan yn yr ymarfer opsiynau cyntaf, ni fyddent wedi cael cyfle i brynu eu holl wasanaeth blaenorol.

> ***Enghraifft 3:*** *Ymunodd Diffoddwr Tân C â'r gwasanaeth fel diffoddwr tân wrth gefn ar 1 Rhagfyr 2000, a gadawodd ar yr un dyddiad yn 2010. Ni chafodd ei gynnwys yn yr ymarfer opsiynau cyntaf ac felly ni wnaeth unrhyw ddewis. Bydd ganddo hawl yn awr i brynu rhywfaint neu'r cyfan o'i wasanaeth rhwng 1 Rhagfyr 2000 a 30 Tachwedd 2010.*
>
> ***Enghraifft 4:*** *Ymunodd Diffoddwr Tân D â'r gwasanaeth fel diffoddwr tân wrth gefn ar 1 Mai 2000, ac mae'n parhau yn y swydd honno. Yn yr ymarfer opsiynau cyntaf, prynodd ei gwasanaeth blaenorol i gyd o'r dyddiad cynharaf a ganiateir ar y pryd, sef 1 Gorffennaf 2000. Bydd ganddi hawl yn awr i brynu rhywfaint neu'r cyfan o'i gwasanaeth rhwng 1 Mai a 30 Mehefin 2000.*

13. I'r gwrthwyneb, rydym yn cynnig na ddylai sawl categori o unigolion fod yn gymwys ar gyfer y rhwymedi hwn, sef:

   a. Y rhai a ymddeolodd neu a adawodd y Gwasanaeth ar 6 Ebrill 2000 neu cyn hynny;

   b. Y rhai a ymunodd â'r Gwasanaeth ar 6 Ebrill 2006 neu ar ôl hynny. Yn lle, roedd gan ddiffoddwyr tân o'r fath hawl i ymuno â Chynllun 2007 neu Gynllun 2015; ac

   c. Y rhai a ymunodd â'r Gwasanaeth ar 1 Gorffennaf 2000 neu ar ôl hynny ond cyn 6 Ebrill 2006, ac a gymerodd ran yn yr ymarfer opsiynau cyntaf, neu a gafodd gyfle i gymryd rhan ond na wnaethant hynny. Mae diffoddwyr tân o'r fath eisoes wedi cael cyfle i brynu eu holl wasanaeth pensiynadwy posibl.

14. Rydym yn cynnig y dylai Awdurdodau Tân ac Achub orfod nodi'r diffoddwyr tân wrth gefn y maent yn credu iddynt gael cyfle i gymryd rhan yn yr ymarfer opsiynau cyntaf, ac felly a yw person wedi'i eithrio yn rhinwedd c) uchod. Mae ein Gorchymyn drafft yn nodi y gellir tybio bod diffoddwr tân wedi cymryd rhan, neu wedi cael cyfle i gymryd rhan, os yw'r Awdurdod Tân ac Achub perthnasol wedi cydymffurfio â rheolau 5A(4), 5A(13) a 6C(4) (fel y bo'n berthnasol) o Ran 11, Atodlen 1 o SI 2007/1072. Ystyrir bod Awdurdod Tân ac Achub wedi cydymffurfio os:

      i. yw'n gallu dangos copi ffeil o'r llythyr perthnasol a anfonwyd at yr unigolyn dan sylw i'w gyfeiriad gartref; neu

ii. os yw'n gallu sefydlu ei fod: wedi cynnal system postgyfuno electronig i reoli'r broses o anfon y llythyrau perthnasol; bod enw a chyfeiriad yr unigolyn perthnasol ar y system honno; a'i fod wedi cadw templedi yn nodi cynnwys gofynnol pob llythyr perthnasol;

iii. Mewn perthynas â phwyntiau i) a ii) lle'r oedd un o ddiffoddwr tân y RDS wedi cydsynio'n ysgrifenedig i gyfathrebu drwy e-bost, mae cyfeiriadau at 'llythyrau' yn cynnwys negeseuon e-bost ac mae cyfeiriadau at 'y cyfeiriad cartref mwyaf diweddar a roddwyd' yn cynnwys y cyfeiriad e-bost a roddwyd yn fwyaf diweddar.

15. Byddai diffoddwr tân y RDS, y mae Awdurdod Tân ac Achub yn nodi nad yw'n gymwys ar y sail ei fod ef neu hi wedi cael ei hysbysu fel rhan o'r ymarfer opsiynau cyntaf, yn gallu herio'r penderfyniad hwn drwy weithdrefnau datrys anghydfod Cynllun 2007.

16. Y bwriad yw y bydd gan unigolyn cymwys hawl i brynu pensiwn am wasanaeth di-dor yn y cynllun wedi'i addasu hyd at 31 Mawrth 2022, naill ai drwy'r diwygiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad neu drwy reoliadau rhwymedi o ran gwahaniaethu ar sail oedran a wnaed o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddfeydd Barnwrol 2022 (Deddf 2022) (gweler paragraffau 82-85). Mae gwaith yn dal i gael ei wneud i egluro'r union fecanwaith a fydd yn berthnasol i wasanaeth yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 a sut mae angen i ni wneud darpariaeth ar gyfer hyn mewn deddfwriaeth.

17. Yn gryno, dyma hawliau'r gwahanol gategorïau a nodir uchod:

| Dyddiad ymuno | Dyddiad gadael | Hawliau prynu |
|---|---|---|
| Unrhyw bryd | Ar 6 Ebrill 2000 neu cyn hynny | Dim un |
| Ar 6 Ebrill 2000 neu cyn hynny | Ar 7 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny | Pob gwasanaeth parhaus, yn cynnwys:<br>• Gwasanaeth y RDS cyn 7 Ebrill 2000.<br>• Gwasanaeth y RDS rhwng 7 Ebrill 2000 a 5 Ebrill 2006. Gwasanaeth y RDS rhwng 6 Ebrill 2006 a 31 Mawrth 2022.<br>Ac eithrio unrhyw wasanaeth a brynwyd eisoes yn yr ymarfer opsiynau cyntaf. |
| Ar 7 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny ac wedi'i eithrio'n llwyr neu'n rhannol o'r ymarfer cyntaf | Unrhyw bryd | Pob gwasanaeth parhaus, yn cynnwys:<br>• Pob gwasanaeth y RDS rhwng 7 Ebrill 2000 a 5 Ebrill 2006 yn gynhwysol<br>• Pob gwasanaeth di-dor y RDS rhwng 6 Ebrill 2006 a 31 Mawrth 2022.<br>Ac eithrio unrhyw wasanaeth a brynwyd eisoes yn yr ymarfer opsiynau cyntaf. |
| Ar 6 Ebrill 2006 neu ar ôl hynny | Unrhyw bryd | Dim un |

***Cwestiwn Ymgynghori 1***

Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf cymhwysedd a nodir ym mharagraffau 12-17?

***Cwestiwn Ymgynghori 2***

Ydych chi'n cytuno y dylai'r trefniadau arfaethedig gynnwys yr opsiwn i brynu gwasanaeth di-dor y RDS yn y cynllun wedi'i addasu rhwng 31 Mawrth 2015 a 31 Mawrth 2022, ni waeth a ddarperir ar gyfer hynny drwy'r darpariaethau hyn neu reoliadau ar wahân a wneir o dan Ddeddf PSPJO 2022?

## B. Rhwymedi Arfaethedig

## Tybiaethau am Gyflogau Hanesyddol a Data Gwasanaeth

18. Roedd yr ymarfer opsiynau cyntaf yn gyfle i unigolion brynu eu gwasanaeth wrth gefn blaenorol hyd at 1 Gorffennaf 2000. Mae unrhyw bryniant ôl-weithredol fel hyn yn dibynnu ar faint o gyflog pensiynadwy a enillwyd gan bob unigolyn yn ystod y cyfnod. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer diffoddwyr tân y RDS, y gall eu henillion amrywio'n sylweddol rhwng ei gilydd a thros amser ar sail nifer y digwyddiadau y maent yn ymateb iddynt. Fodd bynnag, efallai na fydd cofnodion hanesyddol y gyflogres ar gael bob amser. I fynd i'r afael â hyn, yn ystod yr ymarfer opsiynau cyntaf, gallai Awdurdodau Tân ac Achub bennu cyflogau ar sail:

- y gweithiwr perthnasol a'r cofnodion cyflog a oedd ganddo;
- unrhyw ddogfennau perthnasol (fel slipiau cyflog, cyfriflenni banc neu P60) a ddarperir gan y gweithiwr lle nad yw'r Awdurdod yn cadw cofnodion cyflog hanesyddol; NEU
- data cyflog diweddar a/neu gyfraddau presenoldeb ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn yn y gorsafoedd tân penodol yr oedd pob aelod cymwys wedi'i leoli ynddynt, er mwyn pennu cyfraddau cyflog cyfartalog.

19. Byddai'r ymarfer opsiynau newydd yn gyfle i unigolion cymwys brynu gwasanaeth blaenorol o 1 Gorffennaf 2000 ymlaen. Mae hyn yn creu rhagor o gymhlethdodau o ran argaeledd cofnodion gweithwyr. Er mwyn datrys hyn, rydym yn cynnig y canlynol:

- Ar gyfer gwasanaeth o 1 Gorffennaf 2000 ymlaen, byddai Awdurdodau Tân ac Achub yn gallu dibynnu ar yr un ffactorau a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymarfer opsiynau cyntaf (fel y nodir uchod).

- Ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Gorffennaf 2000, byddai Awdurdodau Tân ac Achub yn defnyddio'r tybiaethau/egwyddorion canlynol:

**Gwasanaeth**

- Rhaid i'r Awdurdod benderfynu ar y gwasanaeth ar sail y cofnodion sydd ganddo (ee cofnodion cyflogres neu Adnoddau Dynol, neu dystiolaeth arall fel ffotograffau grŵp swyddogol wedi'u dyddio o griwiau neu wylwyr).
- Os nad yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn gallu pennu cyfnod gwasanaeth y person o'i gofnodion, gall y person roi'r dogfennau perthnasol i'r awdurdod (ee slip cyflog, P60 neu gontract cyflogaeth).
- Os nad oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub gofnodion o wasanaeth y person am y cyfnod hwnnw, ac nad yw'r person yn gallu darparu'r dogfennau angenrheidiol, gall yr Awdurdod benderfynu nad oes gan y person wasanaeth yn ystod y cyfnod hwnnw, sy'n golygu nad oes ganddo hawl i ymuno â'r cynllun sydd wedi'i addasu neu brynu gwasanaeth mewn perthynas â'r cyfnod dan sylw.

**Cyflog**

- Byddai Awdurdodau Tân ac Achub yn defnyddio'r un data ag yn yr ymarfer opsiynau cyntaf ar gyfer cyflogau ar 1 Gorffennaf 2000 neu ar ôl hynny.
- Ar gyfer achosion gyda gwasanaeth cyn mis Gorffennaf 2000, byddai Awdurdodau Tân ac Achub yn defnyddio'r data sydd ganddynt ar gofnod.
- Os nad yw'r Awdurdod yn gallu pennu'r cyflog o'i gofnodion, gall y person roi unrhyw ddogfennau perthnasol sydd ganddo/ganddi i'r awdurdod (ee slip cyflog, P60 neu gyfriflenni banc).
- Yn absenoldeb data am gyflog ar gyfer aelodaeth cyn mis Gorffennaf 2000, gall Awdurdodau Tân ac Achub gymryd yn ganiataol bod y diffoddwr tân wrth gefn yn ennill 25% o gyflog diffoddwr tân amser llawn. Cyfrifwyd y gyfran hon gyda chymorth dadansoddiad o ddata a gasglwyd gan un Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r data'n dangos y cyflogau wrth gefn ac amser llawn cyfatebol diweddaraf ar ddiwedd gwasanaeth wrth gefn yr unigolion rhwng 2000 a'r presennol. Byddai'n bwysig defnyddio'r dybiaeth hon o 25% dim ond ar gyfer cyfnodau lle nad oes cofnodion yn bodoli fel nad yw aelod yn cael pensiwn is neu uwch na'r hyn y mae ganddo hawl iddo.

**Gradd**

- Yn absenoldeb tystiolaeth i'r gwrthwyneb, rydym yn cynnig y dylai Awdurdodau Tân ac Achub dybio bod yr unigolyn yn ddiffoddwr tân cymwys at ddibenion amcangyfrif cyflog pensiynadwy.

***Cwestiwn Ymgynghori 3***

Ydych chi'n cytuno â'r dybiaeth rydym wedi'i chynnig ar gyfer gwasanaeth, cyflog a graddfa yn y gorffennol?

## Math o aelod

20. Mae'r wybodaeth a nodir isod yn cyfeirio at gategorïau gwahanol o aelodau arbennig. Mae disgrifiad o'r aelodau arbennig y cyfeirir atynt wedi'i gynnwys yn yr Eirfa ar ddiwedd yr ymgynghoriad hwn.

## Buddion Pensiwn sydd ar gael

21. Ar y cyfan, y buddion pensiwn fyddai ar gael fyddai'r rhai y darperir ar eu cyfer eisoes yn y cynllun wedi'i addasu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyfradd gronni unffurf o 1/45ed
- oedran pensiwn arferol o 55 oed

- oedran pensiwn gohiriedig o 60 mlynedd
- y gallu i aelodau cymwys drosi'r gwasanaeth safonol presennol yng Nghynllun 2007 neu'r gwasanaeth yng Nghynllun 1992 i'r trefniadau pensiwn newydd arfaethedig (gweler paragraffau 35-44 isod)
- trefniadau pensiwn ar sail afiechyd yn unol â thelerau Cynllun 2007 (gweler paragraffau 22-26 isod i gael rhagor o fanylion)
- grant marwolaeth ôl-weithredol o 2.5 gwaith cyflog pensiynadwy mewn perthynas â'r rhai a fyddai wedi bod yn gymwys i fod yn aelodau pe na baent wedi marw rhwng 7 Ebrill 2000 a 6 Ebrill 2006.

## Dyfarniadau ôl-weithredol ar sail afiechyd

22. Cynigir y byddai'r polisi ar ddyfarniadau ôl-weithredol ar sail afiechyd yr un fath ag yr oedd yn ystod yr ymarfer opsiynau cyntaf. Byddai gan unrhyw gyn-ddiffoddwr tân wrth gefn sy'n gymwys i ymuno â'r cynllun wedi'i addasu ac a oedd wedi ymddeol ar sail feddygol (heb hawl pensiwn) cyn 6 Ebrill 2006 hawl i gael y pensiwn ar sail afiechyd priodol yn ôl-weithredol. Byddai hyn yn cael ei gyfrifo yn unol â darpariaethau safonol cynllun 2007 ac yn seiliedig ar eu gwasanaeth pensiynadwy arbennig hyd at adeg ymddeol ar sail feddygol.

23. Byddai hawl yn amodol ar ardystiad gan Ymarferydd Meddygol Cymwys Annibynnol nad oedd y person yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau fel diffoddwr tân yn barhaol ar y dyddiad y gadawodd y gwasanaeth, a bod yr anabledd parhaol wedi parhau hyd at ddyddiad yr asesiad meddygol. Ar ôl cadarnhau hawl, byddai'r pensiwn ar sail afiechyd yn dod yn daladwy o'r dyddiad ymddeolodd neu gadawodd yr aelod y gwasanaeth. Byddai pob taliad ôl-weithredol ar gyfer pensiwn ar sail afiechyd sy'n ddyledus i'r aelod yn cael ei ôl-ddyddio ac yn cael ei dalu i'r aelod fel cyfandaliad gyda llog.

24. Ar gyfer diffoddwyr tân a ymunodd â'r cynllun wedi'i addasu fel rhan o'r ymarfer opsiynau cyntaf ac sydd wedi cael pensiwn ôl-weithredol ar sail afiechyd ar gyfer eu gwasanaeth pensiynadwy o 1 Gorffennaf 2000 ymlaen, bydd yr ymarfer opsiynau newydd yn gyfle pellach i brynu gwasanaeth cyn mis Gorffennaf 2000. Byddai unrhyw wasanaeth o'r fath yn cael ei adlewyrchu yn y dyfarniad ôl-weithredol ar sail afiechyd a byddai'n cael ei ail-gyfrifo o'r pwynt y gwnaethant adael cyflogaeth.

25. Byddai'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub atgyfeirio unrhyw achosion i actiwari'r cynllun i gyfrifo'r pensiwn ar sail afiechyd wedi'i addasu a'r taliad unioni ar gyfer unrhyw bensiwn ar sail afiechyd a dalwyd i'r aelod hyd yma.

26. Byddai'n rhaid i'r aelod dalu'r holl gyfraniadau a llog yn y gorffennol.

## Buddion Goroeswr

27. Bydd gan oroeswyr unrhyw ddiffoddwr tân y RDS a oedd yn bodloni'r meini prawf a nodir ym mharagraffau 12-17 uchod, ond a fu farw yn y cyfnod rhwng 7 Ebrill 2000 a 5 Ebrill 2006, hawl i fuddion y grant marwolaeth. Ni fyddai angen iddynt dalu'r cyfraniadau y byddai'r aelod wedi'u talu i ddod yn gymwys i'r buddion a nodir.

Yn hytrach, mae'r hawl i fuddion a gynigir yn seiliedig ar werth y buddion y gallai goroeswr fod wedi'u cael pe bai'r diffoddwr tân a fu farw wedi bod yn aelod o'r cynllun wedi'i addasu o dan y telerau llawn sydd bellach yn cael eu cynnig, ac eithrio unrhyw gyfraniad a fyddai'n ddyledus ganddo ef/hi.

- **Grant Marwolaeth Arbennig**

28. Fel rhan o'r ymarfer opsiynau cyntaf, cafodd unrhyw ddiffoddwyr tân a fyddai wedi cael opsiwn i ymuno â'r cynllun wedi'i addasu ond a fu farw yn ystod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2000 a 5 Ebrill 2006 grant marwolaeth arbennig o 2.5 gwaith eu cyflog pensiynadwy – a oedd yn daladwy i'r priod a oedd yn fyw.

29. Fel rhan o'r ymarfer opsiynau newydd, byddai'r ddarpariaeth hon yn cael ei hymestyn i gynnwys diffoddwyr tân a fyddai wedi bod â hawl i ymuno yn ystod yr ymarfer opsiynau cyntaf ond a fu farw yn ystod y cyfnod rhwng 7 Ebrill 2000 a 30 Mehefin 2000.

30. Byddai'r cynllun hefyd yn rhoi ychwanegiad at y grant marwolaeth arbennig mewn perthynas â gwasanaeth diffoddwr tân cyn 7 Ebrill 2000. Bydd y grant marwolaeth arbennig yn rhoi un cyfandaliad i oroeswyr cymwys sy'n cyfateb i 0.1 gwaith cyflog pensiynadwy'r ymadawedig am bob blwyddyn gymwys lawn o wasanaeth a oedd gan yr aelod ymadawedig cyn 7 Ebrill 2000.

31. I grynhoi, dyma'r polisi:

- bydd unrhyw un a fu farw rhwng 7 Ebrill 2000 a 5 Ebrill 2006 nad oedd ganddynt wasanaeth cyn 7 Ebrill 2000 yn cael grant marwolaeth arbennig o 2.5 gwaith eu cyflog pensiynadwy adeg y farwolaeth;
- bydd unrhyw un gyda gwasanaeth cyn 7 Ebrill 2000 a fu farw rhwng 7 Ebrill 2000 a 5 Ebrill 2006 yn cael grant marwolaeth arbennig o 2.5 gwaith eu cyflog pensiynadwy adeg y farwolaeth; a
- bydd unrhyw un sy'n cael grant marwolaeth arbennig yn cael ychwanegiad at y grant marwolaeth arbennig mewn perthynas â'u gwasanaeth cyn 7 Ebrill 2000.

- **Grant marwolaeth ychwanegol**

32. Disgwylir y bydd rhai unigolion wedi ymuno â'r cynllun wedi'i addasu fel rhan o'r ymarfer opsiynau cyntaf ac wedi prynu eu gwasanaeth blaenorol hyd at 1 Gorffennaf 2000 ond wedi marw cyn gweithredu'r ymarfer opsiynau newydd.

33. Byddai'r aelodau a ymunodd â'r cynllun wedi'i addasu fel rhan o'r ymarfer opsiynau cyntaf ac a oedd yn gwasanaethu cyn mis Gorffennaf 2000, ond a fu farw ar ôl hynny, wedi gallu prynu gwasanaeth cyn mis Gorffennaf 2000 dan yr ymarfer opsiynau newydd hwn. Rydym yn bwriadu darparu y bydd goroeswyr cymwys yn cael grant marwolaeth ychwanegol mewn perthynas â gwasanaeth aelodau o'r fath cyn mis Gorffennaf 2000.

34. Bydd y grant marwolaeth ychwanegol yn rhoi un cyfandaliad i oroeswyr cymwys sy'n cyfateb i 0.1 gwaith cyflog pensiynadwy'r ymadawedig am bob

blwyddyn gymwys lawn o wasanaeth a oedd gan yr aelod ymadawedig cyn 1 Gorffennaf 2000.

## Trosi

- **Trosi gwasanaeth safonol yng Nghynllun 2007 yn wasanaeth arbennig wedi'i addasu - aelodau arbennig cysylltiedig, aelodau-bensiynwr arbennig ac aelodau gohiriedig arbennig**

35. Byddai unrhyw ddiffoddwr tân sy'n ymuno â'r cynllun wedi'i addasu drwy'r ymarfer opsiynau newydd fel aelod arbennig cysylltiedig, aelod-bensiynwr arbennig neu aelod gohiriedig arbennig yn gallu trosi aelodaeth safonol wedi'i chronni yng Nghynllun 2007 (y byddai ganddo hawl i'w drin fel gwasanaeth arbennig) yn wasanaeth arbennig.

36. Mae'n bosibl y bydd unrhyw un sy'n ymuno â'r cynllun wedi'i addasu fel aelod-bensiynwr arbennig neu aelod gohiriedig arbennig drwy'r ymarfer opsiynau newydd yn gallu trosi aelodaeth safonol wedi'i chronni yng Nghynllun 2006 (y byddai ganddo hawl i'w drin fel gwasanaeth arbennig) yn wasanaeth arbennig.

- **Trosi gwasanaeth arbennig wedi'i addasu yn wasanaeth safonol yng Nghynllun 2007 – aelodau arbennig cysylltiedig**

37. Mae'n bosibl y bydd unrhyw ddiffoddwr tân a ymunodd â Chynllun Safonol 2007 ar 6 Ebrill 2006 neu ar ôl hynny, ac sy'n gymwys i ymuno â'r cynllun wedi'i addasu fel aelod arbennig cysylltiedig, yn gallu trosi ei aelodaeth arbennig yn aelodaeth safonol.

- **Trosglwyddo gwasanaeth wedi'i gronni yng Nghynllun 1992 i'r cynllun wedi'i addasu – aelodau arbennig cysylltiedig**

38. Mae'n bosibl y bydd unrhyw ddiffoddwr tân sy'n gymwys i ymuno fel aelod arbennig cysylltiedig ac sydd ar hyn o bryd wedi cronni gwasanaeth di-dor yng Nghynllun 1992 (ar ffurf pensiwn gohiriedig) yn gymwys i drosglwyddo'r gwasanaeth hwn i'r cynllun wedi'i addasu. Byddai'r trosglwyddiad yn cael ei wneud o dan delerau'r Clwb Trosglwyddo i'r Sector Cyhoeddus. Byddai angen i unrhyw benderfyniad gan aelod i drosglwyddo'r gwasanaeth hwn gael ei wneud i'r Awdurdod Tân ac Achub sy'n ei gyflogi o fewn blwyddyn i gael manylion costau prynu ei hawliau pensiwn ar gyfer gwasanaeth blaenorol.

39. Byddai cap y cynllun wedi'i addasu ar wasanaeth pensiynadwy, sef 30/45 o gyflog pensiynadwy cyfartalog aelod, yn dal yn berthnasol hyd yn oed pe bai cyfanswm gwasanaeth pensiynadwy arbennig aelod yn fwy na 30 mlynedd ar ôl ymddeol. Nid yw'r cynllun wedi'i addasu yn caniatáu i aelodau gohiriedig nac aelodau-bensiynwyr arbennig drosglwyddo gwasanaeth wedi'i gronni o Gynllun 1992.

- **Penderfyniadau trosi a wnaed yn ystod yr Ymarfer Opsiynau Cyntaf**

40. Yn ystod yr ymarfer opsiynau cyntaf, roedd gan rai aelodau a ymunodd â'r cynllun wedi'i addasu yr opsiwn i drosi unrhyw wasanaeth safonol di-dor o dan Gynllun 2007 (pan wnaethant ymuno â Chynllun safonol 2007) yn wasanaeth arbennig; neu fel arall.

41. Gall yr aelodau hynny sydd wedi dewis ymuno a phrynu eu gwasanaeth yn y cynllun wedi'i addasu nawr brynu rhagor o wasanaeth cyn 1 Gorffennaf 2000. Gallai'r opsiwn pellach hwn gael effaith sylweddol ar y penderfyniadau 'trosi' a wnaeth/na wnaeth yr aelod yn ystod yr ymarfer opsiynau cyntaf.

42. Rydym yn cynnig y bydd yr holl aelodau a ymunodd â'r cynllun wedi'i addasu yn ystod yr ymarfer opsiynau cyntaf ac sydd â gwasanaeth cyn mis Gorffennaf 2000 yn gallu ailedrych ar y penderfyniadau trosi a wnaethant. Os yw'r aelod wedi dewis trosi ei wasanaeth arbennig yn wasanaeth safonol, bydd yn gallu dadwneud y penderfyniad hwnnw. Os nad yw'r aelod wedi dewis trosi ei wasanaeth arbennig yn wasanaeth safonol, bydd nawr yn gallu gwneud y penderfyniad hwnnw fel rhan o'r ymarfer opsiynau newydd.

43. Hefyd, os yw aelod wedi dewis trosi ei wasanaeth safonol yn wasanaeth arbennig, bydd yn gallu dadwneud y penderfyniad hwnnw. Os nad yw wedi dewis trosi ei wasanaeth safonol yn wasanaeth arbennig, bydd yn gallu gwneud y penderfyniad hwnnw fel rhan o'r ymarfer opsiynau newydd.

44. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i ystyried manylion sut bydd y polisi hwn yn cael ei gyflawni'n ymarferol. O'r herwydd, nid yw'r Gorchymyn drafft yn ymdrin â'r polisi hwn.

# Cyfraniadau

### Cyfraniad y Gweithiwr

45. Byddai'r cyfraniadau sy'n daladwy yn ystod yr ymarfer opsiynau newydd ar gyfer prynu gwasanaeth blaenorol yn y cynllun wedi'i addasu ar yr un gyfradd â'r rhai a dalwyd gan aelodau a ymunodd fel rhan o'r ymarfer opsiynau cyntaf (gweler paragraff 68 isod mewn perthynas â llog i'w gymhwyso).

- **Cyfraniad Aelod-Bensiynwr Arbennig**

46. Bydd yn ofynnol i'r unigolion hynny sy'n ymuno â'r cynllun wedi'i addasu fel aelod-bensiynwr arbennig dalu cost cyfraniadau hanesyddol drwy gyfandaliad. Mae'r gofyniad yn berthnasol i wasanaeth cyn ac ar ôl 1 Gorffennaf 2000. Byddai'n rhaid talu'r cyfandaliad i'r Awdurdod Tân ac Achub sy'n eu cyflogi cyn pen chwe mis ar ôl dewis ymuno â'r cynllun wedi'i addasu a chyn i'r pensiwn gael ei dalu.

47. Byddai gan unrhyw aelod-bensiynwyr arbennig yr opsiwn i ddidynnu cost ei hawliau gwasanaeth blaenorol o unrhyw gyfandaliad gohiriedig, neu gyfandaliad sy'n daladwy mewn perthynas â'r dyfarniad ôl-weithredol ar sail afiechyd (mae cyfandaliad gohiriedig yn golygu'r cyfandaliad y gall aelodau ddewis ei gael yn

gyfnewid am aberthu rhan o'u pensiwn blynyddol sy'n daladwy ar ôl ymddeol). Dan yr opsiwn hwn, byddai'r Awdurdod Tân ac Achub sy'n cyflogi'r aelod yn tynnu costau gwasanaeth blaenorol o'r cyfandaliad gohiriedig, a byddai'n talu'r cyfandaliad net i'r aelod. Ni fyddai angen i'r aelod wneud taliad i'r Awdurdod Tân ac Achub.

48. Os nad yw gwerth y cyfandaliad gohiriedig yn ddigon i dalu balans llawn y cyfraniadau blaenorol, byddai'n ofynnol i unigolyn dalu unrhyw falans sy'n weddill o fewn chwe mis a chyn dod yn gymwys i gael taliad o'r pensiwn y mae'r cyfraniadau hynny'n berthnasol iddo.

49. Os yw aelod wedi dewis yr opsiwn hwn ac nad yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn cael y cyfandaliad cyn i'r cyfnod chwe mis hwn ddod i ben, byddai'r dewis i ymuno â'r cynllun wedi'i addasu yn dod i ben.

**- Cyfraniad Aelod-Ddiffoddwr Tân Arbennig ac Aelod-Ddiffoddwr Tân Arbennig Cysylltiedig**

50. Byddai'r diffoddwyr tân hynny sy'n ymuno â'r cynllun wedi'i addasu fel aelod arbennig cysylltiedig yn cael yr opsiwn i dalu'r cyfraniadau hanesyddol drwy gyfandaliad neu gyfraniadau rheolaidd.

**<u>Cyfandaliad</u>**

51. Byddai aelod sy'n dewis talu cyfandaliad yn cael chwe mis o ddyddiad dewis ymuno â'r cynllun wedi'i addasu i dalu'r cyfandaliad. Os oedd aelod wedi dewis yr opsiwn hwn ac nad oedd yr Awdurdod Tân ac Achub wedi cael y cyfandaliad cyn i'r cyfnod chwe mis hwn ddod i ben, byddai'r dewis i ymuno â'r cynllun wedi'i addasu yn dod i ben. Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i wasanaeth cyn ac ar ôl 1 Gorffennaf 2000.

**<u>Cyfraniadau Rheolaidd</u>**

52. Ar gyfer gwasanaeth ar ôl 1 Gorffennaf 2000, byddai gan aelod-ddiffoddwr tân arbennig ac aelod-ddiffoddwr tân arbennig cysylltiedig naill ai gyfnod o 10 mlynedd neu hyd nes y bydd yn ymddeol, pa un bynnag yw'r byrraf, i dalu'r cyfraniadau hanesyddol (mewn perthynas â gwasanaeth ar ôl 30 Mehefin 2000) drwy gyfraniadau rheolaidd a fyddai'n cynnwys llog. Mae hyn yn gyson â'r ymarfer opsiynau cyntaf.

53. Fodd bynnag, gallai'r ymarfer opsiynau newydd gynnwys aelodau'n talu cyfraniadau hanesyddol mewn perthynas â chyfnod hwy – o bosibl yn mynd yn ôl i'r 1960au a'r 1970au, o'i gymharu â'r cyfnod gwasanaeth yr oedd unigolion yn ei brynu yn ystod yr ymarfer opsiynau cyntaf (a oedd yn uchafswm o 15 mlynedd o wasanaeth). O'r herwydd, gallai cael cyfnod lledaenu o ddim ond 10 mlynedd fod yn rhwystr rhag derbyn eu hawl i ymuno â'r cynllun wedi'i addasu. Felly, byddai'r aelod-ddiffoddwr tân arbennig neu'r aelod-ddiffoddwr tân arbennig cysylltiedig sy'n ymuno â'r cynllun wedi'i addasu fel rhan o'r ymarfer opsiynau newydd yn gallu talu mewn rhandaliadau dros gyfnod o 10 mlynedd a hanner hyd y gwasanaeth cyn 1 Gorffennaf 2000 y mae'n dewis ei brynu.

54. Ar ôl i'r aelod ymddeol, mae modd talu unrhyw falans sy'n weddill o'i gyfandaliad gohiriedig neu o ffynhonnell arall os bydd yr aelod yn dewis gwneud hynny. Byddai angen talu'r balans o fewn tri mis.

55. Pe bai'r aelod-ddiffoddwr tân arbennig neu'r aelod-ddiffoddwr tân arbennig cysylltiedig yn optio allan, yn canslo'r cyfraniadau rheolaidd, neu'n peidio â thalu'r balans sy'n ddyledus, yna byddai aelod yn cael credyd pro rata ar gyfer y gwasanaeth a brynwyd yn ystod y cyfnod cyfyngedig estynedig (a ddisgrifir yn yr Eirfa). Byddai ganddo hawl i bensiwn gohiriedig yn y cynllun wedi'i addasu. Ni fyddai'n bosibl i aelod ailddechrau talu cyfraniadau'n rheolaidd yn ddiweddarach.

> ***Enghraifft 5:*** *Ymunodd ddiffoddwr tân E â'r gwasanaeth yn 1995 ac mae'n dal i gael ei gyflogi fel diffoddwr tân y RDS. Fel rhan o'r ymarfer opsiynau newydd, mae diffoddwr tân E yn dewis talu cyfraniadau am ei wasanaeth cyfan rhwng 1995 a 2015. Bydd diffoddwr tân E yn gallu talu'r cyfraniadau rheolaidd yn ôl fel a ganlyn:-*
>
> - *Bydd cyfraniadau ar gyfer 15 mlynedd o wasanaeth rhwng mis Gorffennaf 2000 a mis Mawrth 2015 yn cael eu rhannu dros 10 mlynedd.*
>
> - *Bydd cyfraniadau ar gyfer 5 mlynedd o wasanaeth rhwng 1995 a 2000 yn cael eu rhannu dros 12.5 mlynedd (10 mlynedd a hanner y gwasanaeth 5 mlynedd cyn 2000).*
>
> *Bydd diffoddwr tân E yn gallu gwneud cyfraniadau rheolaidd a gyfrifir ar y sail hon. Os bydd diffoddwr tân E yn ymddeol ar ôl talu cyfraniadau rheolaidd am 5 mlynedd, bydd yn gallu talu unrhyw gyfraniadau sy'n weddill o'i gyfandaliad gohiriedig.*

56. Os bu farw'r aelod-ddiffoddwr tân arbennig neu'r aelod-ddiffoddwr tân arbennig cysylltiedig yn ystod y cyfnod lledaenu a chyn dod yn gymwys i gael taliad o'r pensiwn arbennig, yna byddai ei wasanaeth pensiynadwy arbennig yn cael ei gredydu â'r swm llawn o wasanaeth yr oedd wedi dewis ei brynu.

57. Pe bai aelod-ddiffoddwr tân arbennig neu aelod-ddiffoddwr tân arbennig cysylltiedig yn ymddeol ar sail afiechyd yn ystod y cyfnod lledaenu, yna byddai ganddo'r opsiwn i dalu unrhyw swm sy'n weddill am y gwasanaeth blaenorol yr oedd wedi dewis ei brynu drwy gyfandaliad. Pe bai'n dewis peidio â thalu'r balans sy'n weddill, yna byddai'r credyd gwasanaeth blaenorol yn cael ei gyfrifo ar sail pro rata i adlewyrchu'r cyfraniadau a dalwyd mewn gwirionedd ar gyfer gwasanaeth blaenorol.

**- Aelod Gohiriedig Arbennig**

58. Rydym yn cynnig y byddai gan yr unigolion hynny sy'n ymuno â'r cynllun wedi'i addasu fel aelod gohiriedig arbennig yr opsiwn i dalu cyfraniadau hanesyddol drwy gyfandaliad neu drwy gyfraniadau rheolaidd, yn yr un modd ag aelod-ddiffoddwr tân arbennig.

**Cyfandaliad**

59. Byddai angen talu'r cyfraniadau a wneir drwy gyfandaliad o fewn chwe mis i ddyddiad dewis talu am wasanaeth yn ystod y cyfnod cyfyngedig estynedig. Os yw aelod wedi dewis yr opsiwn hwn ac nad yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn cael y cyfandaliad cyn i'r cyfnod chwe mis hwn ddod i ben, byddai'r dewis i ymuno â'r cynllun wedi'i addasu yn dod i ben.

**Taliadau Rheolaidd**

60. Mae'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig yn gyson â'r dull gweithredu ar gyfer aelod-ddiffoddwyr tân arbennig. Hynny yw, byddai gan aelodau gohiriedig arbennig naill ai gyfnod o 10 mlynedd neu nes iddynt gyrraedd yr oedran lle mae ganddynt hawl i'w pensiwn gohiriedig, pa un bynnag yw'r byrraf, i dalu'r cyfraniadau hanesyddol (mewn perthynas â gwasanaeth ar ôl 30 Mehefin 2000) drwy gyfraniadau rheolaidd a fyddai'n cynnwys llog. Mae hyn yn gyson â'r ymarfer opsiynau cyntaf. Ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Gorffennaf 2000, gellir rhannu rhandaliadau aelodau gohiriedig arbennig dros gyfnod o 10 mlynedd yn ogystal â hanner hyd y gwasanaeth cyn 1 Gorffennaf 2000 y maent wedi dewis ei brynu.

61. Gellid talu unrhyw falans sy'n weddill ar y dyddiad y daw'r aelod yn gymwys i gael y pensiwn gohiriedig o'i gyfandaliad gohiriedig neu o ffynhonnell arall os bydd yr aelod yn dewis gwneud hynny. Dylid talu'r balans o fewn tri mis.

62. Pe bai aelod gohiriedig arbennig yn optio allan, yn canslo'r cyfraniadau rheolaidd, neu'n peidio â thalu'r balans sy'n ddyledus, yna byddai'r aelod yn cael credyd pro rata ar gyfer y gwasanaeth a brynwyd yn ystod y cyfnod cyfyngedig estynedig. Ni fyddai'n bosibl i'r aelod ailddechrau talu cyfraniadau'n rheolaidd yn ddiweddarach.

***Cwestiwn Ymgynghori 4***

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynnig i rannu cyfraniadau rheolaidd ar gyfer gwasanaeth ar ôl y flwyddyn 2000 dros 10 mlynedd ac, ar gyfer gwasanaeth cyn y flwyddyn 2000, 10 mlynedd a hanner hyd y gwasanaeth cyn 2000 y maent wedi dewis ei brynu?

**Addasiadau ar gyfer colli rhyddhad treth ar gyfraniadau gweithwyr**

63. Byddai gan unigolion sy'n ymuno â'r cynllun wedi'i addasu fel rhan o'r ymarfer opsiynau newydd hawl i gael rhyddhad treth ar eu cyfraniadau gweithiwr blaenorol. Disgwylir na fyddai llawer o'r aelodau hynny, er enghraifft aelodau arbennig sydd wedi ymddeol, yn gallu gofyn am hyn gan CThEF drwy brosesau sefydledig (Talu Wrth Ennill neu hunanasesu).

64. Er mwyn osgoi unrhyw gymhlethdodau o ran rhyddhad treth yn sgil gweithredu'r ymarfer opsiynau newydd, byddai'r aelodau hynny nad ydynt yn

gymwys i gael rhyddhad treth drwy brosesau sefydledig yn cael iawndal. Byddai hyn yn cael ei wneud drwy leihau costau prynu eu gwasanaeth blaenorol yn y cynllun wedi'i addasu i adlewyrchu hawliad tybiedig am ryddhad treth ar gyfer pob aelod.

65. At y dibenion hyn, tybir y byddai pob aelod sy'n ymuno â'r cynllun wedi'i addasu fel rhan o'r ymarfer opsiynau newydd yn drethdalwyr ymylol safonol o 20%. Fodd bynnag, os bydd aelod yn darparu tystiolaeth gadarn i ddangos ei fod wedi talu treth ar gyfradd ymylol uwch yn ystod y cyfnod pan oedd yn cael ei gyflogi fel diffoddwr tân wrth gefn, byddai hyn yn cael ei ystyried yn y cyfrifiad.

66. I fod yn gymwys ar gyfer y didyniad hwn, rhaid i aelod ddarparu datganiad i'r Awdurdod Tân ac Achub yn dweud na fyddai'n hawlio rhyddhad treth mewn perthynas â chyfraniadau pensiwn y cyfnod arbennig gorfodol. Gwneir hyn er mwyn sicrhau nad yw person yn cael rhyddhad treth ddwywaith.

**Cyfraniadau'r Cyflogwr**

67. Mae gweithredu'r ymarfer opsiynau newydd yn debygol o greu diffyg yn y cynllun wrth i aelodau brynu hawliau gwasanaeth blaenorol nad oes unrhyw gyfraniadau wedi'u talu gan y cyflogwr. Pennir maint y diffyg hwn mewn prisiadau actiwaraidd o Gynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân. Bydd unrhyw ddiffyg yn y cynllun yn cael ei adennill drwy addasu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr (gan gymryd y bydd y diffyg yn cael ei ad-dalu dros gyfnod o 15 mlynedd o'r dyddiad gweithredu). Mae pwysau o ran cost pensiynau cyflogwyr yn cael eu hystyried fel rhan o gytundebau cyllido ehangach.

**Llog**

68. Byddai llog yn berthnasol ar gyfraniadau sy'n ddyledus gan aelod i'r cynllun a'r pensiwn sy'n ddyledus gan y cynllun i aelod. Byddai'r cyfraddau llog yn berthnasol i'r ymarfer opsiynau newydd yn yr un modd ag yr oeddent yn berthnasol i aelodau a ymunodd â'r cynllun wedi'i addasu yn ystod yr ymarfer opsiynau cyntaf.

# C. Yr Ymarfer Opsiynau

69. O dan ein cynigion, byddai'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub gynnal ymarfer opsiynau newydd i roi cyfle i bawb sy'n gymwys ymuno â'r cynllun wedi'i addasu. Yn yr un modd â'r ymarfer opsiynau cyntaf, mae'r Gorchymyn drafft yn nodi amserlen ddangosol i helpu Awdurdodau Tân ac Achub i gynnal yr ymarfer opsiynau newydd yn effeithiol dros gyfnod o 18 mis. Fodd bynnag, mae'r Gorchymyn drafft hefyd yn nodi, lle nad yw'n rhesymol ymarferol i'r Awdurdod Tân ac Achub neu'r unigolyn gydymffurfio â'r amserlen hon, mai'r gofyniad yw gwneud hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn amodol ar y rheol gyffredinol bod rhaid gwneud penderfyniadau i gymryd rhan yn yr ymarfer opsiynau newydd o fewn 18 mis i weithredu'r ddeddfwriaeth alluogi.

70. Mae’r amserlen ddangosol yn nodi’r canlynol:

- Byddai’n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub wneud ymdrechion rhesymol i roi gwybod i bawb sy’n gymwys i ymuno â’r cynllun wedi’i addasu cyn pen tri mis ar ôl gweithredu’r ddeddfwriaeth alluogi. Byddai disgwyl i’r Awdurdodau Tân ac Achub a gyflogodd y person cymwys rhwng 7 Ebrill 2000 a 5 Ebrill 2006 yn gynhwysol ddarparu’r hysbysiad.
- Byddai pobl gymwys yn datgan eu diddordeb mewn ymuno â’r cynllun drwy wneud cais i’r Awdurdod Tân ac Achub perthnasol am ddatganiad o wasanaeth ynghyd â gwybodaeth benodol. Byddai’r wybodaeth hon yn cadarnhau manylion eu gwasanaeth yn ystod y cyfnod cyfyngedig estynedig, a gwybodaeth berthnasol arall fel unrhyw wasanaeth a brynwyd fel rhan o’r ymarfer opsiynau cyntaf (os yw’n berthnasol). Byddai hyn yn digwydd o fewn chwe mis i gael hysbysiad gan yr Awdurdod Tân ac Achub.
- Bydd gan aelodau cymwys na chawsant eu hysbysu gan eu Hawdurdod Tân ac Achub naw mis o’r dyddiad y daw’r ddeddfwriaeth i rym i ddatgan eu diddordeb cychwynnol mewn ymuno â’r cynllun drwy wneud cais am ddatganiad o wasanaeth, ynghyd â gwybodaeth benodol. Fel y nodir uchod, byddai’r wybodaeth hon yn nodi manylion eu gwasanaeth yn ystod y cyfnod cyfyngedig estynedig, a gwybodaeth berthnasol arall.
- Byddai Awdurdodau Tân ac Achub yn ysgrifennu at bob person cymwys a fynegodd ddiddordeb cychwynnol mewn ymuno â’r cynllun wedi’i addasu o fewn tri mis i ddyddiad derbyn eu cais. Byddai’r Awdurdodau yn nodi faint o wasanaeth arbennig y mae gan unigolion cymwys hawl i’w brynu yn ystod y cyfnod cyfyngedig estynedig a chostau cysylltiedig prynu’r hawliau gwasanaeth blaenorol hynny.
- Byddai’r person cymwys yn cadarnhau i’r Awdurdod Tân ac Achub priodol, o fewn chwe mis i dderbyn yr wybodaeth hon, ei fod yn dymuno ymuno â’r cynllun a thalu’r cyfraniadau hanesyddol gofynnol. Byddai gofyn i’r person hefyd ddewis y dyddiad y mae am i’w wasanaeth ddechrau yn y cynllun wedi’i addasu (dyddiad dechrau’r ‘cyfnod arbennig gorfodol’).

71. Byddai angen cwblhau’r ymarfer opsiynau newydd o fewn 18 mis i’r dyddiad y bydd y ddeddfwriaeth alluogi yn dod i rym, ac mae’r Gorchymyn drafft yn darparu na fydd penderfyniadau i brynu gwasanaeth arbennig ar ôl y dyddiad hwn yn ddilys, yn amodol ar yr amgylchiadau eithriadol a esbonnir isod.

72. Fodd bynnag, gwneir darpariaeth ar gyfer rhywfaint o hyblygrwydd sy’n caniatáu i unigolion na chawsant eu cydnabod cyn i’r cyfnod o 18 mis ddod i ben ddewis prynu gwasanaeth arbennig ar ôl cau’r ymarfer opsiynau newydd. Bydd yr hyblygrwydd hwn ond yn berthnasol mewn achosion eithriadol lle, er gwaethaf ymdrechion rhesymol yr Awdurdod Tân ac Achub i hysbysu unigolion cymwys, ni wnaeth yr Awdurdod roi gwybod i’r unigolion dan sylw am eu hawl i ymuno â’r cynllun wedi’i addasu yn ystod y cyfnod ymarfer opsiynau o 18 mis (er enghraifft, oherwydd nad oedd yr Awdurdod Tân ac Achub yn ymwybodol o hawl yr unigolion). Ni fydd yn berthnasol i achosion lle mae’r Awdurdod Tân ac Achub wedi rhoi gwybod i unigolyn, ond ni wnaeth yr unigolyn ymateb mewn da bryd.

***Cwestiwn Ymgynghori 5***

***Ydych chi'n cytuno y dylid cwblhau'r ymarfer opsiynau newydd o fewn 18 mis (gyda hyblygrwydd wedi'i gynnwys i fynd i tu hwnt i hynny mewn achosion eithriadol fel y disgrifir ym mharagraff 72).***

## D. Polisïau Eraill

**Materion cyfuno**

73. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i gyflawni'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i roi'r ymarfer opsiynau newydd ar waith erbyn diwedd 2023. Fodd bynnag, derbyniwyd hawliadau newydd mewn perthynas ag unigolion sydd â chyfnodau o wasanaeth fel diffoddwyr tân wrth gefn a diffoddwyr tân cyffredin ac sy'n ceisio cyfuno'r cyfnodau gwasanaeth hyn o dan eu haelodaeth â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried ei hymateb i'r hawliadau hyn.

**Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP)**

74. Mae darparu rhwymedi pellach ar gyfer y rheini sydd â gwasanaeth cyn 1 Gorffennaf 2000 wedi arwain at fater technegol cymhleth sy'n gofyn am ddelio â'r GMP os yw unrhyw ddiffoddwr tân wrth gefn cymwys yn dewis prynu gwasanaeth blaenorol rhwng 6 Ebrill 1978 a 5 Ebrill 1997.

75. Roedd rhaid i gynlluniau pensiwn galwedigaethol a oedd wedi cael eu contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P) rhwng 6 Ebrill 1978 a 5 Ebrill 1997 sicrhau bod GMP yn cael ei ddarparu gan y cynllun ar gyfer aelodau o Oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae aelodau cynlluniau pensiwn galwedigaethol sydd wedi'u 'contractio allan' yn talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol is na'r rheini sydd ar gontract Ail Bensiwn y Wladwriaeth, gan mai'r cynllun pensiwn unigol sy'n gyfrifol am y rhwymedigaeth GMP, yn hytrach na'r S2P.

76. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun wedi'i addasu yn cael ei gontractio allan o'r S2P yn ôl i 1 Gorffennaf 2000 sy'n golygu bod diffoddwyr tân wrth gefn, a ymunodd â'r cynllun fel rhan o'r ymarfer opsiynau cyntaf, wedi gallu hawlio ad-daliad o'r cyfraniadau yswiriant gwladol uwch yr oeddent wedi'u talu'n wreiddiol. Fodd bynnag, bydd eu S2P yn cael ei addasu i adlewyrchu'r cyfraniadau yswiriant gwladol a dalwyd mewn gwirionedd.

77. Bydd yr ymarfer opsiynau newydd yn golygu y bydd rhai diffoddwyr tân wrth gefn yn dewis prynu gwasanaeth blaenorol yn ystod cyfnod y GMP, hy rhwng 6 Ebrill 1978 a 5 Ebrill 1997. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl dadwneud GMP i bawb mwyach.

78. Rydym yn cynnig gadael statws ‘wedi’i gontractio allan’ y cynllun wedi’i addasu fel y mae. Bydd hawliadau gan unigolion sydd wedi dioddef colled ariannol o ganlyniad i beidio â chael eu contractio allan o’r S2P am y cyfnod cyn mis Gorffennaf 2000 yn cael eu hystyried fesul achos. Mae hyn yn gyson â’r dull gweithredu a gynigir gan y Swyddfa Gartref ar gyfer diffoddwyr tân a gyflogir gan Awdurdodau Tân ac Achub yn Lloegr.

**Treth**

79. Taliadau treth Lwfans Blynyddol – bydd unigolion cymwys yn ymuno â’r cynllun wedi’i addasu fel rhan o’r ymarfer opsiynau newydd a byddant yn gallu prynu cyfnodau mawr o wasanaeth blaenorol yn y cynllun wedi’i addasu drwy un cyfandaliad. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion dalu’r cyfraniadau y byddai wedi bod yn rhaid iddynt eu talu pe baent yn y cynllun yn ystod y cyfnod y maent yn dewis ei brynu.

80. Gall hyn olygu bod unigolion yn torri eu lwfans blynyddol er mwyn cronni pensiwn sy’n rhydd o dreth. Wrth i’r unigolyn brynu ei holl wasanaeth blaenorol drwy un cyfandaliad, bydd i bob pwrpas yn cronni ei hawl lawn i bensiwn mewn un flwyddyn dreth. Os bydd y twf pensiwn hwn yn y flwyddyn prynu yn fwy na Lwfans Blynyddol yr unigolyn, efallai y bydd yr unigolyn yn gorfod talu treth lwfans blynyddol.

81. Mae ffordd o liniaru rhywfaint ar hyn oherwydd gall unigolion drosglwyddo unrhyw lwfans blynyddol heb ei ddefnyddio o flynyddoedd treth blaenorol os ydynt yn aelod o gynllun pensiwn cofrestredig yn y DU neu gynllun pensiwn tramor cymwys.

**Unigolion sydd â hawl i ymuno â’r cynllun wedi’i addasu fel rhan o’r ymarfer opsiynau newydd ac sy’n gymwys ar gyfer y rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran a gynigiwyd yn ddiweddar**

82. Ym mis Rhagfyr 2018, penderfynodd y Llys Apêl fod gwarchodaeth drosiannol yn gwahaniaethu yn erbyn aelodau iau yn achosion McCloud/Sargeant. Roedd y llysoedd yn mynnu bod y llywodraeth yn unioni’r gwahaniaethu anghyfreithlon hwn, a derbyniodd y llywodraeth fod hyn yn berthnasol i bob un o brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus.

83. Mae Deddf Pensiynau’r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2022, yn darparu’r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwneud newidiadau i gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus i unioni’r gwahaniaethu a nodwyd gan ddyfarniad McCloud/Sargeant. Mae tair elfen gyffredinol i’r pecyn unioni:

a. Trosglwyddo’r holl aelodau sy’n dal yn rhan o’r hen gynlluniau 2015 ar 1 Ebrill 2022. Mae hyn eisoes wedi cael ei wneud, dan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022.
b. Ailgyfeirio aelodau yr effeithir arnynt i’w hen gynlluniau ar gyfer y cyfnod unioni, a delio â chanlyniadau hynny; a
c. Sefydlu’r mecanweithiau y gall yr aelodau yr effeithir arnynt eu defnyddio i ddewis, wrth ymddeol (neu ar unwaith, os ydynt eisoes wedi ymddeol), y

cynllun sy'n berthnasol i'w gwasanaeth yn ystod y cyfnod unioni a darparu ar gyfer canlyniadau penderfyniadau o'r fath.

84. Gwnaethom ymgynghori ar gynigion manwl ar gyfer b a c rhwng 31 Mawrth a 23 Mehefin 2023 ac ar hyn o bryd rydym yn dadansoddi'r ymatebion a gawsom.

85. Bydd gan unigolion sydd â hawl i rwymedi fel rhan o'r ymarfer opsiynau newydd hwn hefyd hawl i gael rhwymedi o ran gwahaniaethu ar sail oedran (ar gyfer y cyfnod unioni rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022) yn unol â rheoliadau sy'n cael eu paratoi o dan Ddeddf 2022. Mae hyn yn amodol ar a ydynt yn bodloni'r meini prawf gofynnol, sef eu bod yn gweithio fel diffoddwr tân y RDS rhwng 31 Mawrth 2012 a 1 Ebrill 2015 yn gynhwysol, neu wedi cael egwyl o wasanaeth am lai na 5 mlynedd yn ystod un neu'r ddau o'r dyddiadau hynny. Mae gwaith yn dal i gael ei wneud i egluro'r union fecanwaith a fydd yn berthnasol i wasanaeth yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 a sut mae angen i ni wneud darpariaeth ar gyfer hyn mewn deddfwriaeth.

# Rhan 2 - Diwygiadau arfaethedig i Orchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) mewn perthynas â Chontractau Eilaidd

86. Dan ddarpariaethau cyfredol cynllun pensiwn diffoddwyr tân, mae gan holl aelodau cynllun pensiwn diffoddwyr tân hawl i bensiynau ar sail afiechyd os nad ydynt yn gallu parhau i weithio o ganlyniad i anaf neu salwch. Mae buddion hefyd ar gael i oroeswyr cymwys pe byddant yn marw. Ar ben hynny, gall diffoddwyr tân hefyd fod yn gymwys i gael buddion ar wahân o dan Orchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 ("Cynllun Digolledu 2007"), pe byddant yn dioddef anaf cymwys neu'n cael eu lladd ar ddyletswydd, ac mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar ganran o gyflog pensiynadwy cyfartalog.

87. Mae'r Cynllun Iawndal yn cynnwys unigolion sy'n cael eu cyflogi gan Awdurdod Tân ac Achub fel diffoddwr tân rheolaidd (amser llawn neu ran amser), diffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol ac sy'n diffodd tân neu'n cyflawni dyletswyddau eraill (boed hynny yn lle diffodd tân neu ar ben hynny). Dan y cynllun, bydd iawndal yn daladwy os bydd unigolyn yn dod yn anabl yn barhaol o ganlyniad i anaf cymwys wrth arfer ei ddyletswyddau fel diffoddwr tân.

88. Mae'n gyffredin i ddiffoddwyr tân ddal sawl contract cyflogaeth gyda'r un cyflogwr. Er enghraifft, mae gan lawer o ddiffoddwyr tân amser llawn hefyd gontract eilaidd ar wahân fel diffoddwr tân wrth gefn, hyfforddwr neu i ymgymryd â dyletswyddau arbenigol fel Chwilio ac Achub Trefol ("USAR"). Dan reolau presennol y cynllun, byddai eu hawl i fuddion o dan Gynllun Digolledu 2007, pe baent yn dioddef anaf cymwys neu'n cael eu lladd fel rhan o'u dyletswyddau o dan y contract eilaidd, yn seiliedig ar delerau'r contract hwnnw yn unig.

### Contractau Eilaidd – Chwilio ac Achub Trefol (USAR)

89. Ar hyn o bryd, nid yw'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru sy'n cyflogi criwiau USAR yn dosbarthu dyletswyddau USAR fel rhai sy'n gymwys ar gyfer iawndal, gan fod dyfarniad yr Uchel Lys yn achos Booth ac achos arall yn erbyn Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru[5] yn nodi nad oedd gwasanaeth USAR yn bensiynadwy gan ei fod yn rhan o gontract eilaidd tymor byr sy'n cael ei gwblhau bob blwyddyn. Dyfarnodd y Llys hefyd nad oedd dyletswyddau USAR a oedd yn cael eu cynnal dan gontract eilaidd yn bensiynadwy gan eu bod yn rhan o gontract cyflogaeth ar wahân i ymgymryd â dyletswyddau arbenigol, nad oeddent yn rhan o rôl diffoddwr tân rheolaidd. Os nad yw'r cyflog ar gyfer dyletswyddau USAR yn bensiynadwy, yna byddai'r cyflog pensiynadwy at ddibenion cyfrifo taliadau iawndal (ac felly'r taliadau iawndal eu hunain) yn ddim. Byddai hyd y gwasanaeth a'r enillion o dan y prif gontract amser llawn yn cael eu diystyru wrth gyfrifo buddion y cynllun digolledu mewn perthynas â dyletswyddau USAR. Felly, ni fyddai diffoddwyr tân yn cael iawndal o ganlyniad i drefniadau contract eu swydd. Fodd bynnag, pe bai USAR (neu unrhyw ddyletswyddau arbenigol eraill) wedi cael ei

[5] [2019] EWHC 790

ryddhau o dan y prif gontract cyflogaeth, byddai'r unigolyn yn gymwys i gael buddion iawndal llawn.

90. Rydym yn credu bod y sefyllfa hon yn annheg, a'i bod yn anghywir gwahaniaethu rhwng dyletswyddau USAR a dyletswyddau diffoddwyr tân eraill. Mae technegwyr USAR wedi'u lleoli mewn gorsafoedd tân ac maent yn ymateb i argyfwng yn ôl yr angen. Mae ganddynt yr un telerau ac amodau, strwythur graddfeydd a gwisg â diffoddwyr tân eraill; ac mae eu gwaith yr un mor beryglus. Ar ben hynny, mae darpariaeth USAR yn ddyletswydd statudol mewn ymateb i argyfwng ar Awdurdodau Tân ac Achub dan Orchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007[6], ac o'r herwydd dylid ystyried y rhai sy'n darparu'r gwasanaeth hwn yn ddiffoddwyr tân. Mae llawer o enghreifftiau eraill o rolau y mae rhai diffoddwyr tân yn eu cyflawni, fel achub pobl mewn llifogydd, achub gyda rhaff, gyrru cerbyd neu ddefnyddio offer anadlu estynedig. Ac eto, ni fyddai neb yn dweud nad yw'r rheini'n rhan o ddyletswyddau diffoddwr tân.

91. Felly, rydym yn cynnig diwygio'r diffiniad presennol o "ddiffoddwr tân rheolaidd" yn rheolau'r cynllun i ddarparu y dylai rôl diffoddwr tân gynnwys yr holl ddyletswyddau sy'n ymwneud ag unrhyw un o swyddogaethau'r Awdurdod Tân ac Achub o dan adrannau 7 i 9 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Byddai hyn yn sicrhau bod dyletswyddau arbenigol fel USAR yn rhan o ddyletswyddau rheolaidd diffoddwr tân; a bod unrhyw anaf neu farwolaeth sy'n digwydd o ganlyniad i ymgymryd â dyletswyddau o'r fath yn gymwys i gael iawndal.

**Contractau Eilaidd – Dyletswydd Wrth Gefn**

92. Yn ogystal ag USAR, mae gan rai diffoddwyr tân gontractau eilaidd hefyd i ymgymryd â dyletswyddau diffoddwr tân wrth gefn, yn ogystal â'u rôl fel diffoddwr tân amser llawn o dan gontract cyflogaeth sylfaenol. Dim ond am y digwyddiadau y maent yn eu mynychu y mae'r rhan fwyaf o ddiffoddwyr tân wrth gefn yn cael eu talu, sy'n golygu bod eu henillion yn sylweddol is na'u cydweithwyr amser llawn. O dan ddarpariaethau presennol y cynllun, pe bai anaf yn digwydd a oedd i'w briodoli'n llwyr i ddyletswyddau contract y diffoddwr tân wrth gefn, byddai budd-daliadau'r anaf yn seiliedig ar ei gyflog a'i wasanaeth o dan y contract hwnnw'n unig, a byddai unrhyw wasanaeth o dan ei brif gontract amser llawn yn cael ei ddiystyru. Gallai hyn arwain at yr unigolyn yn cael swm sylweddol is o iawndal nag y byddai'n gymwys iddo o dan ei brif gontract cyflogaeth. Er enghraifft, gall diffoddwr tân amser llawn rheolaidd fynd i'r un digwyddiad â chydweithiwr sy'n ymateb o dan ei gontract eilaidd i'r RDS. Pe bai'r ddau ddiffoddwr tân yn cael eu hanafu, byddai'r diffoddwr tân amser llawn yn gymwys i gael iawndal llawn ond byddai'r diffoddwr tân wrth gefn ond yn gymwys i gael buddion iawndal ar sail ei gyflog a'i wasanaeth wrth gefn yn unig. Byddai hynny'n wir hyd yn oed petai gan y ddau yr un hyd o wasanaeth amser llawn â'r Awdurdod Tân ac Achub dan sylw.

93. Mae hyn yn amlwg yn anghyfiawn. Felly, rydym yn cynnig cywiro hyn drwy ddiwygio'r diffiniadau o "cyflog pensiynadwy" a "gwasanaeth pensiynadwy" yng Ngorchymyn Cynllun Digolledu 2007 i ganiatáu i ddiffoddwyr tân gael mynediad at fuddion cynllun iawndal sy'n cael eu cyfrifo ar sail hyd llawn gwasanaeth fel diffoddwr

[6] 2007 rhif.3193 (Cy.280); gweler erthygl 3.

tân, a chyfanswm y cyflog yn y swydd honno (p'un ai a yw'n bensiynadwy ai peidio), o dan yr un cyflogwr.  Byddai hyn yn sicrhau bod gan ddiffoddwyr tân hawl i fuddion cynllun iawndal yn seiliedig ar wasanaeth a chyflog llawn ac nid ar hyd gwasanaeth a chyflog o dan gontract eilaidd yn unig.  Byddai hefyd yn datrys y broblem a achosir drwy ystyried nad yw taliadau i dechnegwyr USAR yn bensiynadwy o gwbl.

94. Nid yw'r Gorchymyn drafft a gyhoeddwyd gyda'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys darpariaethau ar gyfer y cynigion a nodir ym mharagraffau 89-93 uchod. Ein bwriad yw cynnwys y darpariaethau hyn yn y Gorchymyn terfynol, yn dibynnu ar ddadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd.

***Cwestiwn Ymgynghori 6***

***Cwestiwn:  I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylem newid y diffiniadau o "diffoddwr tân" a "cyflog pensiynadwy" yn y Cynllun Iawndal, i sicrhau bod gan y diffoddwyr tân hynny sydd â chontract eilaidd hawl i gael iawndal ar yr un telerau â'r rheini nad ydynt yn gwneud hynny?***

**Yr Iaith Gymraeg**

95. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â hawliau diffoddwyr tân y RDS i fuddion pensiwn, a hawliau pob diffoddwr tân i gael iawndal am anafiadau.  O'r herwydd, nid yw'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, na gallu pobl i gyfathrebu yn Gymraeg.  Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i reolwyr y cynllun gyfathrebu ag aelodau yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn unol â safonau iaith Gymraeg yr Awdurdodau Tân ac Achub.  Bydd ein Gorchymyn terfynol hefyd yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

***Cwestiwn Ymgynghori 7***

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai’r cynnig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.  Pa effeithiau y byddai’n eu cael, yn eich barn chi?  Sut y gellid cynyddu’r effeithiau cadarnhaol, a lliniaru'r effeithiau negyddol?

***Cwestiwn Ymgynghori 8***

Eglurwch hefyd, os gwelwch yn dda, sut rydych yn credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

## Materion eraill

96. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau fel rhan o’r ymgynghoriad hwn, ond mae’n ddigon posibl y bydd ymatebwyr yn dymuno codi materion eraill hefyd.

***Cwestiwn Ymgynghori 9***

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol.  Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am ein cynigion neu unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt?

## Geirfa

| Term | Esboniad |
|---|---|
| ***Cynllun 1992*** | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 |
| ***Cynllun 2007*** | Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007. Fe'i gelwir weithiau'n "Gynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân" neu "NFPS". |
| ***Cynllun 2015*** | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 fel y'i sefydlwyd gan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015. |
| ***Cynllun Iawndal*** | Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 a nodir yn yr Atodlen i Orchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007. |
| ***Grant Marwolaeth Ychwanegol*** | Cyfandaliad ychwanegol a wneir i oroeswr aelod ymadawedig a ymunodd â'r cynllun wedi'i addasu yn ystod yr ymarfer opsiynau cyntaf ac a fyddai wedi bod â hawl i brynu gwasanaeth cyn Gorffennaf 2000 yn ystod yr ymarfer opsiynau newydd oni bai am y ffaith ei fod wedi marw. |
| ***Rhwymedi o ran Gwahaniaethu ar Sail Oedran*** | Newidiadau i'r cynllun pensiwn i ddileu'r gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn achosion McCloud/Sargeant. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith o 1 Hydref 2023 ymlaen. |
| ***Lwfans Blynyddol*** | Y swm y gall unigolyn ei gynilo tuag at bensiwn bob blwyddyn heb orfod talu treth. Ar gyfer cynlluniau pensiwn y Diffoddwyr Tân, caiff hyn ei bennu gan werth cyfalaf y cynnydd yn y buddion cronedig dros y flwyddyn dreth (hynny yw, twf y pensiwn yn y flwyddyn dreth). Mae'r lwfans blynyddol safonol yn £40,000 ers 6 Ebrill 2016 a bydd yn cynyddu i £60,000 o 6 Ebrill 2023 ymlaen. |
| ***Aelod arbennig cysylltiedig*** | Unrhyw ddiffoddwr tân sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir ym mharagraffau 50-57 ac yn aelod gweithredol o gynllun 2015 ar yr adeg y mae'n gwneud penderfyniad o dan yr ymarfer opsiynau newydd arfaethedig. |
| ***Cyfnod cyfyngedig estynedig*** | Y 'cyfnod cyfyngedig estynedig' yw'r cyfnod llawn y mae gan unigolyn hawl i brynu yn y cynllun wedi'i addasu dan yr ymarfer opsiynau newydd ac fe'i disgrifir fel a ganlyn:<br><br>Y cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y person hwnnw ei gyflogi gyntaf fel diffoddwr tân ac sy'n dod i ben ar y cynharaf o'r canlynol—<br>(a) y dyddiad, os yw'n berthnasol, ymunodd y person hwnnw â'r Cynllun hwn fel aelod arbennig neu fel aelod safonol mewn cysylltiad â gwasanaeth y gallai'r person hwnnw ei ystyried fel arall yn wasanaeth pensiynadwy arbennig, |

| | |
|---|---|
| | (b) y dyddiad, os yw'n berthnasol, ymunodd y person hwnnw â Chynllun 2015 mewn cysylltiad â gwasanaeth y gallai'r person hwnnw ei ystyried fel arall yn wasanaeth pensiynadwy arbennig,<br>(c) y dyddiad, os yw'n berthnasol, roddodd y person hwnnw'r gorau i gael ei gyflogi fel diffoddwr tân cyffredin neu ddiffoddwr tân wrth gefn, a<br>(d) [ 31 Mawrth 2015] |
| ***Ymarfer Opsiynau Cyntaf*** | Yr ymarfer opsiynau a gynhaliwyd gan Awdurdodau Tân ac Achub rhwng 2014 a 2016 i roi cyfle i unigolion cymwys ymuno a phrynu eu gwasanaeth wrth gefn blaenorol yn y cynllun wedi'i addasu. |
| ***Ymddeol ar sail afiechyd*** | Ymddeol ar sail nad yw unigolyn yn gallu cyflawni ei rôl yn barhaol fel diffoddwr tân am resymau iechyd. Mae'r rheini sy'n ymddeol ar y sail hon yn cael mynediad at eu pensiwn ar unwaith, ni waeth beth yw eu hoedran. |
| ***Cyfnod arbennig gorfodol*** | Y cyfnod arbennig gorfodol yw'r cyfnod yn ystod y cyfnod cyfyngedig estynedig y mae unigolyn yn dewis prynu yn y cynllun wedi'i addasu. Mae'n dechrau ar y diwrnod a ddewisir gan yr aelod ac mae'n dod i ben ar ddiwrnod olaf y cyfnod cyfyngedig estynedig. |
| ***Cynllun wedi'i addasu*** | Cynllun pensiwn a oedd yn agored i ddiffoddwyr tân wrth gefn yn unig. Mae wedi'i gynnwys yn rheolau Cynllun 2007 ond mae'n debyg i Gynllun 1992 yn y rhan fwyaf o agweddau. |
| ***Ymarfer Opsiynau Newydd*** | Yr ymarfer a gynhelir gan Awdurdodau Tân ac Achub rhwng 2024 a 2025 i roi cyfle i unigolion cymwys ymuno a phrynu eu gwasanaeth blaenorol yn y cynllun wedi'i addasu. |
| ***Cyflog Pensiynadwy*** | Y cyflog sy'n cael ei ystyried wrth gyfrifo hawliau pensiwn. |
| ***Gwasanaeth Pensiynadwy*** | Y cyfnod o amser (a fynegir fel arfer mewn blynyddoedd) y mae aelod o'r cynllun yn cronni pensiwn. |
| ***Prif gontract cyflogaeth*** | Contract rhwng unigolyn a chyflogwr sy'n nodi telerau ac amodau eu prif gyflogaeth. |
| ***Anaf cymwys*** | Anaf y mae person yn ei gael wrth arfer ei ddyletswyddau fel diffoddwr tân. |
| ***Diffoddwr tân wrth gefn (neu RDS)*** | Diffoddwr tân rhan amser sy'n ymateb i alwadau brys o gartref neu leoliad arall yn ei ardal leol, yn ôl yr angen. |
| ***Contract cyflogaeth eilaidd*** | Contract (ac eithrio prif gontract cyflogaeth) lle mae unigolyn yn cytuno i wneud gwaith ychwanegol, ar ran y gwasanaeth, sydd y tu allan i'r dyletswyddau o dan y prif gontract cyflogaeth. |

<table>
<tr><th></th><th></th></tr>
<tr><td>Grant Marwolaeth Arbennig</td><td>Cyfandaliad a wneir i oroeswyr unigolion a fyddai wedi gallu ymuno â’r cynllun wedi’i addasu ond a fu farw yn ystod y cyfnod 7 Ebrill 2000 a 5 Ebrill 2006 yn gynhwysol.</td></tr>
<tr><td>Aelod gohiriedig arbennig</td><td>Unrhyw gyn-ddiffoddwr tân sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir ym mharagraffau 12-17 uchod:<ul><li>a adawodd cyflogaeth cyn penderfynu ymuno â’r cynllun wedi’i addasu, ac nad oes ganddo hawl i gael taliad ar unwaith o'i bensiwn cynllun wedi’i addasu ar y dyddiad hwn; neu</li><li>sy’n ymuno fel aelod-ddiffoddwr tân arbennig ac sy'n gadael cyflogaeth neu'n dewis peidio â bod yn aelod o’r cynllun wedi’i addasu cyn dod yn gymwys i gael taliad o'i bensiwn arbennig;</li></ul></td></tr>
<tr><td>Aelod-ddiffoddwr Tân Arbennig</td><td>Unrhyw ddiffoddwr tân sy’n bodloni’r meini prawf cymhwysedd a nodir ym mharagraffau 12-17 uchod sy’n parhau’n gyflogedig heb doriad yn ei wasanaeth fel diffoddwr tân ar y dyddiad y mae’n penderfynu ymuno â’r cynllun wedi’i addasu.</td></tr>
<tr><td>Aelod-bensiynwr Arbennig</td><td>Unrhyw gyn-ddiffoddwr tân sy'n bodloni'r meini prawf a nodir ym mharagraffau 12-17 uchod ac a oedd wedi gadael cyflogaeth cyn gwneud penderfyniad dan yr ymarfer hwn; ac sy’n bodloni un o’r amodau canlynol:<ul><li>sydd, ar ôl ymuno â’r cynllun wedi’i addasu, yn cael yr hawl i gael taliad o’i bensiwn ar unwaith; neu</li><li>unrhyw aelod gohiriedig arbennig ar ôl cyrraedd 60 oed; neu</li><li>unrhyw aelod-ddiffoddwr tân arbennig neu aelod gohiriedig arbennig yr ardystiwyd ei fod yn anabl yn barhaol cyn cyrraedd oedran pensiwn arferol neu oedran buddion arferol, yn y drefn honno; neu</li><li>unrhyw aelod arbennig sy'n cyrraedd 55 oed ac sy'n ymddeol.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Gwasanaeth Arbennig</td><td>Y gwasanaeth wrth gefn blaenorol y mae unigolyn yn ei brynu yn y cynllun wedi’i addasu.</td></tr>
<tr><td>Gwasanaeth Safonol</td><td>Unrhyw wasanaeth yng Nghynllun 2007 nad yw’n wasanaeth arbennig.</td></tr>
<tr><td>Chwilio ac Achub Trefol ‘USAR’</td><td>Tîm achub arbenigol wedi’i hyfforddi i ganfod a rhyddhau pobl o adeiladau sydd wedi cwympo, mannau cyfyng neu ddigwyddiadau trafnidiaeth ar raddfa fawr, a’u cadw’n ddiogel.</td></tr>
</table>